



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LEFEL 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

HAF 2023



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1	1
Uned 2	4

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Haf 2023

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Sylwadau Cyffredinol

Roedd ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr uned hon ac roedd eu gwybodaeth am y fanyleb yn dda. Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y meysydd cynnwys yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau i'w gweld yn dangos dealltwriaeth gyffredinol dda. Roedd gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth i'r sefyllfaoedd penodol a osodwyd yn y senarios yn amrywio, yn dibynnu ar y senario. Mae'n rhaid ymarfer cymhwyso gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Cwblhaodd pob ymgeisydd y papur, sy'n awgrymu bod y papur wedi caniatáu digon o amser i ymgeiswyr ysgrifennu ymatebion manwl. Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gadarnhaol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r holl gwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad, ac anaml y gwelwyd pwyntiau byr neu bwyntiau bwled. Prin iawn oedd yr atebion un gair neu frawddegau byr, gan awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'r cwestiynau. Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen cwestiynau a byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ganolbwyntio mwy ar eiriau gorchymyn y cwestiynau. Argymhellir bod ymgeiswyr yn ail-ddarllen ac yn gwirio eu hymatebion, os bydd amser yn caniatáu.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw1 Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr nodi'r maes datblygu cywir, a oedd yn braf i'w weld. Gwelwyd gwallau achlysurol, drwy gamddarllen neu frysio, hwyrach.

Cw.2 (a)(i)(ii) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi diffinio'r termau twf a cherrig milltir yn gywir.

(b) Rhoddwyd marciau am ymatebion a oedd yn nodi enghreifftiau o fabanod yn meistroli sgil mawr newydd, megis rholio drosodd, dant newydd. Ni roddwyd am ymatebion a oedd yn cyfeirio at ddatblygu sgiliau megis 'cerdded', byddai 'camau cyntaf' a 'cerdded heb gymorth' wedi bod yn gerrig milltir disgwylidig.

(c) Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr nodi'r tri ffactor bywyd a all effeithio ar ddatblygiad plentyn. Er y gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr roi amrywiaeth o ffactorau, dylid annog dysgwyr yn erbyn rhoi ymatebion ailadroddus a fydd yn colli marciau e.e. afiechyd meddwl, iselder, a gorbryder. Rhoddwyd 1 marc am yr ymateb hwn ar gyfer y ffactor bywyd iechyd meddwl. (Y Fanyleb: Maes testun 1.2)

Cw.3 (a) Roedd ymgeiswyr a oedd wedi deall ystyr dwyieithog, wedi rhoi disgrifiadau da o sut mae'r amgylchedd ddwyieithog yn cynyddu datblygiad deallusol plentyn, sgiliau meddwl, cyfathrebu a chyfleoedd. Rhoddwyd yr ymatebion hyn yn y band marciau uchaf. Roedd llawer o ymatebion yn seiliedig ar ddatblygiad cymdeithasol plentyn yn unig, a oedd yn cyfyngu'r marciau i'r band isaf/gwaelod y band canol. Rhoddwyd marciau am ymatebion cadarnhaol yn unig.

- (b) Roedd yn ymddangos bod y cwestiwn hwn yn heriol gydag ymatebion yn cyfeirio at ddiwylliant a chredoau heb wneud cysylltiadau â hunangysyniad. Mae'r ffactorau sy'n llywio hunangysyniad yn faes pwysig o'r fanyleb ac argymhellir bod digon o oriau dysgu yn canolbwyntio ar y testun hwn. (Y Fanyleb: Maes testun 1.3)
- (c) Roedd ymatebion ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan. Roedd yn bwysig mynd i'r afael ag effaith dechrau teulu ar iechyd a llesiant y rhieni. Rhoddwyd marciau llawn lle roedd ymgeiswyr wedi asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol.
- Cw.4** (a) Ymatebion da lle gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddiffinio rôl eiriolwr.
- (b) Rhoddwyd ymgeiswyr a esboniodd pam y gallai hunangysyniad Aled gynyddu yn y band marciau uchaf. Lle roedd ymgeisydd wedi nodi y byddai hunangysyniad, hunan-hyder yn cynyddu, fe'u hystyriwyd yn ymatebion sylfaenol.
- (c) Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Er y gwelwyd rhai ymatebion da iawn, roedd llawer o ymgeiswyr wedi drysu rhwng polisi cynhwysiant a bod wedi'i gynnwys. Mae'r ymgeiswyr hyn yn rhoi manylion sylfaenol o Aled yn gwneud ffrindiau a gwella ei fywyd cymdeithasol. I gyrraedd y band marciau uchaf, roedd gofyn i ymgeiswyr asesu'r manteision i Aled lle roedd y coleg wedi cyflwyno strategaethau i ddileu gwahaniaethu.
- Cw.5** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio manteision gweithgareddau hamdden i deulu. Roedd ymatebion sylfaenol yn esbonio'r manteision i blant yn unig, ac roedd ymatebion da iawn yn cynnwys iechyd a llesiant y teulu cyfan, gan gynnwys meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'i gilydd.
- (b) 'Gwerthuswch' oedd y ferf orchymyn yn y cwestiwn hwn, ac roedd yn gofyn am gydbwysedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol gan lunio casgliad. Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion da, ond roedd llawer o ymgeiswyr wedi cyfyngu eu hymateb i ddefnyddio 'cyfryngau cymdeithasol' yn unig.
- Cw.6** (a) Roedd gofyn i ymgeiswyr ddiffinio cyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, roedd arholwyr yn chwilio am ymatebion a oedd yn cynnwys: cyflwr nad oes modd ei wella ac sy'n byrhau bywyd. Ni roddwyd marciau am effeithiau byd gyda chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd.
- (b) Rhoddwyd ymgeiswyr a ddangosodd wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r term gwydnwch a'r ffyrdd y gallai'r grŵp cefnogi helpu i rymuso Celyn i fyw ei bywyd gorau yn y band marciau uchaf.
- Cw.7** Ni roddodd nifer uchel o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn. Roedd ymatebion yn dangos diffyg gwybodaeth o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae deddfwriaeth bresennol yn faes testun pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Y Fanyleb: Maes testun 1.4)
- Cw.8.** (a)(b) Roedd mwyafrif yr ymatebion wedi nodi'n gywir bod y brechiad fflw yn ddull diogelu sy'n atal ac wedi nodi grwpiau cywir sy'n agored i niwed. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd ac unigolion â system imiwnedd gwan.

- (b) Mae'r cwestiwn hwn yn werth 8 marc. Er y gallai ymgeiswyr roi esboniad sylfaenol o bwrsas a heriau menter llesiant y brechiad ffliw, collwyd marciau drwy ddiffyg manylion yn yr ymatebion. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am atebion manwl o ansawdd da.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Dylid annog ymgeiswyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus ac i ymateb i'r geiriau gorchmynnol. Argymhellir eu bod yn prawfddarllen eu gwaith.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gallu deall a chymhwyso'r ffactorau sy'n llunio hunangysyniad at amrywiaeth o senarios. Cyfranogiad gweithredol, cynhwysiant, gwydnwch a hunangysyniad yn cefnogi unigolion i ymdopi ac ymateb i ddigwyddiadau bywyd (Manyleb: Maes testun 1.3).

Mae deddfwriaeth gyfredol, ymgyrchoedd a hybu yn faes pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Y Fanyleb: Maes testun 1.4).

Enillodd yr ymgeiswyr llai o farciau os gwnaethant lunio rhestri yn hytrach na rhoi atebion mwy manwl.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu digon o le i ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion i bob cwestiwn. Mewn cyfresi yn y dyfodol, dylid atgoffa ymgeiswyr i nodi rhif y cwestiwn a'r isadran yn glir pan fydd atebion yn parhau ar dudalennau parhad.

Dylid annog ymgeiswyr i wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan DIGC. Mae deunyddiau asesu enghreifftiol, technegau adolygu, adolygiadau arholiadau a sylwebaeth gan yr uwch arholwr yn darparu cefnogaeth dda i ymgeiswyr weld sut mae'r cynllun marcio'n cael ei gymhwyso at amrywiaeth o gwestiynau. Mae deunyddiau DPP hefyd ar gael ar y wefan ddiogel.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Haf 2023

UNED 2: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PERTHYNAS Â CHEFNOGI DARPARIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU AR GYFER GOFAL PERSON-GANOLOG

Sylwadau Cyffredinol

Dyma flwyddyn gyntaf y cymhwyster hwn lle mae ymgeiswyr wedi cwblhau dwy elfen yr Uned hon heb fesurau lliniaru mewn lle. Mae hyn yn digwydd ar ffurf Aseiniad 1 – Astudiaeth achos ac Aseiniad 2 gyda lleoliad gwaith cyfatebol. Mae canolfannau wedi gweithio'n eithriadol o galed i fodloni gofynion cyflwyno ar gyfer y cymhwyster hwn gyda'r rhan fwyaf o ganolfannau yn cyflwyno'u samplau o Aseiniad 1 a 2 o fewn yr amserlen. Cafwyd ychydig o oedi mewn rhai cyflwyniadau, ond roedd pob canolfan dan sylw yn cynnig rhesymau dilys dros hyn. Roedd pob canolfan wedi cyflwyno samplau o waith ymgeiswyr ac ar y cyfan, roedd y samplau a gyflwynwyd wedi'u trefnu'n dda gyda rhifau cywir yr ymgeiswyr wedi'u rhoi.

Roedd ran y rhan fwyaf o ganolfannau rywfaint o dystiolaeth o ddefnyddio templed CBAC/C&G ond roedd rhywfaint o wallau neu hepgoriadau mewn llawer o gyflwyniadau. Roedd hyn yn cynnwys: llofnod y tiwtor cyn llofnod yr ymgeisydd ac ni fyddai hynny'n dystiolaeth o ddilysrwydd, tiwtoriaid yn llofnodi ar ran yr ymgeisydd, hepgor llofnod yr ymgeisydd yn gyfangwbl. Roedd bron i bob cyflwyniad wedi'i deipio ar brosesydd geiriau gydag amrywiaeth o ddulliau marcio wedi'u cymhwyso o sylwadau electronig i rai wedi'u hysgrifennu â llaw.

Ni chafwyd unrhyw broblemau o ran deall y gwaith, fodd bynnag gellid annog ymgeiswyr i brawffdarllen eu gwaith ac i fyfrio ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys sillafu, atalnodi a gramadeg. Roedd yr anodi yn amrywio o ddim anodi i gyfiawnhad manwl o pham y rhoddwyd marciau. Gan fod aseiniad 1 a 2 i'w cwblhau dan amodau asesu rheoledig gyda chyfyngiad o ran cyfrif geiriau a lwfans 'nodiadau', roedd disgwyl gweld dystiolaeth o hyn. Fodd bynnag, prin oedd y sylwadau, dystiolaeth neu'r cyfeiriad gan diwtoriaid ar yr elfennau hyn. Mewn rhai achosion, cyflwynwyd nodiadau ond roedden nhw'n cynnwys atebion wedi'u paratoi ymlaen llaw. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi mynd dros y cyfrif geiriau. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gadw amser na sut roedd y dasg dan reolaeth yn cael ei monitro.

Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi 'dyfynnu' o'r rhyngwyd ac wedi cynnwys cyfeirnod ond nid oedden nhw wedi cyflwyno unrhyw nodiadau fel dystiolaeth bod hyn wedi'i baratoi cyn y dasg dan reolaeth, a allai ddangos bod y rhyngwyd wedi'i ganiatáu yn ystod y dasg.

Roedd aseiniad 2 yn gofyn i ymgeiswyr gymryd rhan mewn lleoliad gwaith perthnasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a 60 awr o ymgysylltu â'r sector, i gynhyrchu dystiolaeth o hyn a'i chymhwyso at y tasgau yn Aseiniad 2. Roedd rhai canolfannau wedi darparu'r dystiolaeth hon yn effeithiol, ond roedd nifer o ymgeiswyr wedi mynychu lleoliadau gwaith mewn ysgolion cynradd a oedd yn eu rhoi nhw dan anfantais wrth ateb y meini prawf gan fod y cwestiynau yn ymwneud â iechyd a gofal cymdeithasol.

Prin oedd y dystiolaeth o'r aseiniadau'n digwydd dan amodau asesu rheoledig.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar yr holl feini prawf yn aseiniad 2 ac wedi cymhwyso lefel o wybodaeth yn ymwneud ag ymgysylltu â'r sector. Roedd yr ystod o

siaradwyr gwadd a'r rhyngweithio o ran ymgysylltu â'r sector a gymhwyswyd yng nghanolfannau yn amlwg drwy gydol gwaith yr ymgeiswyr.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Aseiniad 1

Roedd aseiniad 1 yn cynnwys cynnig dewis o 2 astudiaeth achos i'r ymgeiswyr er mwyn cwblhau set o feini prawf cyfatebol o fewn tasg 6 awr dan reolaeth. Roedd samplau'r rhan fwyaf o ganolfannau yn dangos tystiolaeth o ddewis yn cael ei gynnis gan fod samplau o astudiaeth achos Jodie ac Andrew wedi'u cwblhau. Cyflwynwyd nodiadau mewn rhai achosion. Roedd tiwtoriaid yn tueddu i farcio'n hael pan nad oedd cyfiawnhad wedi'i roi dros ddyfarnu marciau. Rhoddwyd marciau mewn bandiau uwch, ar brydiau, pan mai dim ond rhan o feini prawf oedd wedi'u bodloni.

Tasg A

Roedd pob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y dasg hon ac wedi cymhwyso anghenion sylfaenol Max Neef at eu hastudiaeth achos o ddewis. Cafwyd amrywiaeth o atebion a oedd yn cadw at y ferf gorchymyn 'amlinellwch'. Byddai rhywfaint o safoni'r marcio wedi bod yn ddefnyddiol yma gan y byddai rhai tiwtoriaid yn rhoi marciau Band 4 am atebion pwynt bwled lle byddai rhai eraill yn rhoi marciau Band 2 am ateb manwl a rhagorol. Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi defnyddio'r manylebau i gyflwyno'r anghenion sylfaenol yn ôl Max Neef.

Tasg B – cwestiwn 2 ran

- (i) Collwyd ychydig iawn o farciau yma gan fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi copïo'r canlyniadau llesiant o'r astudiaeth achos.
- (ii) Roedd yr atebion a'r marciau a roddwyd yn amrywio ond yn gyffredinol ychydig iawn o ymgeiswyr a enillodd farciau llawn ar gyfer y meini prawf hyn, naill ai am beidio â chymhwyso rôl y tîm amlddisgyblaethol at y canlyniadau llesiant personol neu am beidio â disgrifio sut roedd pob aelod yn cefnogi Jodie neu Andrew.

Tasg C

Eto, roedd rhai ymgeiswyr yn ennill marciau yn y band uchaf ar gyfer y meini prawf hyn. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth o ddefnyddio'r acronymau Saesneg GATEAU ond nid ym mhob canolfan. Collwyd marciau lle nad oedd ymgeiswyr wedi cymhwyso'r heriau i gael mynediad at wasanaethau neu lle roedden nhw wedi trafod heriau personol.

Tasg Ch

- (i) Cyfradd llwyddiant isel o ran marciau Band 3 ar gyfer y meini prawf hyn. Gallai ymgeiswyr gynnis peth disgrifiad o 3 chydran y meini prawf hyn ond ychydig iawn a 'esboniodd' AC a gysylltodd nhw â'r canlyniadau llesiant.
- (ii) Ymateb da i'r meini prawf hyn a syniad clir ar y cyfan o beth yw'r codau ymddygiad.

Tasg D

Ymateb amrywiol i'r meini prawf hyn. Ar y cyfan, cynigiodd ymgeiswyr esboniadau helaeth o nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda pheth trafodaeth o sut roedd yn berthnasol i Jodie neu Andrew. Byddai canolfannau'n elwa o ddull safonol o ymdrin ag ymatebion derbyniol i'r meini prawf hyn gan mai prin oedd y dystiolaeth o ddadansoddi sut

mae'r nodau'n dylanwadu ar yr astudiaeth achos neu mewn rhai ymatebion Band 3 neu 4, cafwyd trafodaeth dda am y nodau ond nid sut oedden nhw'n cefnogi canlyniadau llesiant. Nid oedd hyn wedi'i gydnabod gan yr aseswr bob amser.

Aseiniad 2

Tasg A

Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y meini prawf hyn gyda llwyddiant amrywiol. Gellid annog canolfannau i gynnig amrywiaeth ehangach o ymgysylltu â'r sector i wella profiad yr ymgeiswyr o rolau priodol o fewn IGC i roi'r cyfle gorau iddyn nhw o gyrraedd band uwch yn y meini prawf hyn. Er bod rolau mewn ysgolion cynradd yn werthfawr i'r ymgeiswyr nid ydyn nhw'n osodiadau lleoliad gwaith priodol.

Tasg C

Roedd pob ymgeisydd yn y sampl wedi rhoi rhyw fath o gynnig ar y meini prawf hyn. Ychydig o ymgeiswyr a enillodd farciau band 4 gydag esboniad rhagorol. Byddai cadw at y berfau gorchymyn a defnyddio dyddiadur lleoliad gwaith yn caniatáu ar gyfer esboniad manwl pellach.

Tasg Ch

Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gynnig ar y meini prawf hyn gyda rhywfaint o fyfyrion ar eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain. Roedd yn ymddangos bod ansawdd y myfyrion yn ddibynnol ar ansawdd y dyddiadur lleoliad gwaith, os y cafodd ei gyflwyno, a byddwn yn cynghori canolfannau i roi hyn ar waith fel arfer da ac i roi'r cyfle gorau i ymgeiswyr ennill marciau mewn bandiau uwch ar gyfer y meini prawf hyn.

Roedd rhai canolfannau wedi gwneud hyn yn dda iawn gan gyflwyno cofnod manwl o ymgysylltu â'r sector er mwyn gwella'r profiad dysgu.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Proses gyflwyno dda ar y cyfan.
- Mae datganiadau dilysrwydd yn hanfodol, a dylai'r ymgeisydd fod yn llofnodi a dyddio'i waith i gadarnhau hyn cyn i'r aseswr ei farcio.
- Cwblhawyd taflenni sylwadau yn effeithiol ar y cyfan ond dylai aseswyr ddefnyddio'r maes 'ffynonellau' yn gyson i drafod sut mae dysgu ac addysgu wedi digwydd.
- Nid yw ysgolion cynradd yn lleoliadau gwaith derbyniol oni bai y rhoddwyd cyfiawnhad ar y daflen sylwadau.
- Dylid cynnig anodi fel cyfiawnhad pam mae marciau wedi'u dyfarnu neu eu hepgor.
- Roedd cofnodion ymgysylltu â'r sector a dyddiaduron lleoliad gwaith yn dangos arfer da.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk